Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn newid y gyfraith ar gyfer cwmnïau. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar bob cwmni sy'n gweithredu yn y Deyrnas Unedig. Pasiwyd y Ddeddf yn 2006, a chyflwynir y cam olaf yng ngweithrediad y Ddeddf ar 1af Hydref 2009. Mae'r canllaw hwn yn cynnwys gwybodaeth allweddol i'ch helpu i ddeall pa bethau sy'n newid.

Ffurflenni

Bydd pob un o ffurflenni Tŷ'r Cwmnïau yn newid o 1af Hydref 2009 ymlaen.



Mae'r ffurflenni newydd yn cynnwys:

- gofynion gwybodaeth Deddf Cwmnïau 2006
- rhifau newydd a ddiwedderir i fod yn berthnasol i Ddeddf 2006
- nodiadau canllaw ychwanegol
- manylion am unrhyw ffi (pan fo'n gymwys)

Rhaid defnyddio'r ffurflenni newydd ar gyfer pob digwyddiad cwmni sy'n digwydd ar ôl 1af Hydref 2009. Os defnyddiwch hen ffurflen, caiff ei gwrthod.

Rhaid cyflwyno digwyddiadau cwmni sy'n digwydd cyn 1af Hydref ar ffurflenni Deddf 1985.

Mae ffurflenni enghreifftiol ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau
www.companieshouse.gov.uk/act

Ffioedd

I gwrdd â'r gost o gynnal y gofrestr, mae Tŷ'r Cwmnïau yn codi tâl am ffeilio rhai ffurflenni, megis y ffurflen flynyddol, newid enw, morgais a diddymu gwirfoddol.

Cofiwch anfon y ffi gydag unrhyw ffurflen bapur. Os na wnewch, ni allwn ei derbyn.

Arbedwch amser a thrafferth drwy

ffeilio ar-lein

Gellwch ffeilio llawer o'n ffurflenni yn electronig.

Gellwch arbed amser wrth ddarparu gwybodaeth, a chael cymorth cam-wrth-gam er mwyn osgoi camgymeriadau neu'r annifyrrwch o weld gwrthod eich ffurflenni. Gall y dull electronig fod yn rhatach hefyd, yn achos rhai o'r ffurflenni y codir tâl amdanynt.

Gwellwch ymweld â'r tudalennau WebFiling ar ein gwefan.

Diogelwch

eich cwmni rhag ei herwgipio

O 1af Hydref ymlaen bydd Cynllun Diogelu Ffeilio Ar-lein ('PROOF') y Cofrestrydd yn gweithredu o dan fframwaith y Ddeddf (adran 1070).

Mae twyll hunaniaeth gorfforaethol yn broblem sy'n cynyddu, a ffyrmiau bach yr un mor agored i niwed â chwmnïau mawr. PROOF yw ein cynllun ni i leihau'r perygl y gallai'ch cwmni chi fynd yn ysglyfaeth i dwyllwyr. Diogelir cwsmeriaid PROOF rhag newid manylion eu cwmni, trwy gytuno â'r Cofrestrydd mai yn electronig yn unig y byddant yn ffeilio rhai dogfennau. Os yw twyllwr wedyn yn ceisio herwgipio'r cwmni drwy ffeilio darn o bapur, bydd hwnnw'n cael ei wrthod.

Diogelwch eich cwmni gyda PROOF. Cewch wybod rhagor, neu ymuno, ar ein gwefan.
Mae'r Cofrestrydd yn annog pob cwmni i ymuno â PROOF. Mae'n hawdd gwneud hynny nawr, drwy'r gwasanaeth WebFiling, gan ddefnyddio cod dilysu'r cwmni (nid oes rhaid cael caniatâd ysgrifenedig pob cyfarwyddwr bellach).

Eisoes yn gwsmer PROOF?

Hyd yn oed os ydych eisoes yn gwsmer PROOF, bydd angen ichi lofnodi i ymuno eto ar ôl 1af Hydref, er mwyn derbyn telerau ac amodau'r PROOF statudol newydd.

Hoffech chi wybod rhagor?

Mae gwefan Tŷ'r Cwmnïau yn darparu gwybodaeth fanwl, gweithrediadau blaenorol a chwestiynau a ofynnir yn aml ar bob agwedd ar Ddeddf Cwmnïau 2006. Ar y wefan hefyd, ceir mynediad at y ffurflenni ac erthyglau cymdeithasu enghreifftiol newydd ar gyfer Deddf Cwmnïau 2006.

I gael rhagor o wybodaeth am Ddeddf Cwmnïau 2006, ewch i **www.companieshouse.gov.uk/act**

Ar gyfer pob gwybodaeth arall o Dŷ'r Cwmnïau, dylech ymweld ag **www.companieshouse.gov.uk**

Pethau allweddol

y bydd angen eu gwybod ar ôl 1af Hydref 2009

diogelir cyfeiriad cyfarwyddwr rhag ei ddatgelu

Bydd gan bob cyfarwyddwr gyfeiriad cyflwyno hysbysiadau a chyfeiriad preswyl arferol. Bydd y cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau ar gyfer pob safle fel cyfarwyddwr ar gael i'r cyhoedd. Datgelir y cyfeiriad preswyl i awdurdodau cyhoeddus ac i asiantaethau gwirio credyd yn unig. Ar 1 Hydref, bydd cyfeiriad preswyl presennol cyfarwyddwr yn mynd yn gyfeiriad cyflwyno-hysbysiadau iddo yn awtomatig. Fodd bynnag, os byddwch yn dymuno cael cyfeiriad cyflwyno-hysbysiadau gwahanol, gellwch newid y manylion hyn ar ein gwefan o'r 1af Hydref ymlaen.

cyfeiriad amgen ar gyfer cofrestrau

Newidir y trefniadau ar gyfer archwilio cofrestrau cwmnïau. Bydd modd cadw'r cofrestrau hyn yng nghyfeiriad y swyddfa gofrestredig neu mewn un 'lleoliad archwilio amgen' (SAIL) arall. Bydd rhaid ichi ein hysbysu ni os byddwch yn sefydlu SAIL neu os newidir cyfeiriad y SAIL, ac ni chaniateir i gwmni gael mwy nag un SAIL ar y tro. Unwaith y byddwch wedi sefydlu cyfeiriad SAIL, cewch symud rhai neu bob un o'r cofrestrau i'r cyfeiriad SAIL trwy'n hysbysu ni. Bydd ffurflenni newydd ar gael i wneud hyn ar wefan Tŷ'r Cwmnïau..

bydd yn haws sefydlu cwmni

Gwnaed nifer o newidiadau i'w gwneud yn haws sefydlu cwmni. Mae'r manylion llawn ar ein gwefan.

erthyglau ar gyfer cwmnïau newydd

Gwneir newidiadau mewn erthyglau cwmnïau ar gyfer cwmnïau newydd. Byddant yn cynnwys amcanion a rhwymedigaethau'r cwmni – a oedd gynt yn y memorandwm. Mae copïau o erthyglau enghreifftiol ar gael ar wefan Tŷ'r Cwmnïau.

ein hysbysu ynghylch newid erthyglau

Bydd rhaid ichi anfon unrhyw ddiwygiadau yn erthyglau'r cwmni atom o fewn 15 diwrnod. Os na wnewch, gallech fod yn atebol am dramgwydd troseddol yn ogystal â chosb sifil o £200.

Canllawiau

i helpu'ch busnes

Mae Tŷ'r Cwmnïau wedi paratoi nodiadau canllaw

sy'n esbonio'r newidiadau ac yn rhoi cyfarwyddiadau cam-wrth-gam ar sut i ffurfio cwmni, ar yr hyn y mae'n rhaid ei wneud yn ystod oes cwmni, a sut i ddiddymu.

Mae'r nodiadau canllaw ar gael ar ein gwefan neu drwy ofyn amdanynt, mewn fformatiau print bras ac awdio, yn Gymraeg ac yn Saesneg.



Ffeiliwch eich cyfrifon un mis yn gynharach i osgoi cosb

Mae terfynau amser Tŷ'r Cwmnïau ar gyfer ffeilio cyfrifon i gyd yn fyrrach o un mis.

Mae gennych lai o amser, o fis, i ffeilio eich cyfrifon. I gwmni preifat, yr amser yw naw mis, ac i gwmni cyhoeddus chwe mis. Mae hyn yn gymwys i gyfnodau cyfrifyddu sy'n cychwyn ar neu ar ôl 6 Ebrill 2008.

Os byddwch yn ffeilio'ch cyfrifon yn hwyr, byddwch yn atebol am gosb ffeilio o hyd at £1500 yn achos cwmni preifat. Mae'r manylion llawn ar ein gwefan.

Cofiwch fod gennych 1 mis yn llai o amser.

Mae'n hanfodol cofio hyn – gallech wynebu cosb ariannol sylweddol os na fyddwch yn ffeilio'ch cyfrifon erbyn y dyddiad dyledus.



Peidiwch ag anghofio!

Mae'r newidiadau canlynol wedi digwydd eisoes

Mae rhai ohonynt yn opsiynol, ac eraill ddim:

Rhaid ichi:

- fod yn **16 oed** neu'n hŷn i gael eich penodi'n gyfarwyddwr.

Nid oes rhaid ichi:

- benodi **ysgrifennydd cwmni** os ydych yn gwmni preifat, ond cewch wneud hynny os dymunwch.
- cynnal **cyfarfod cyffredinol blynyddol** os ydych yn gwmni preifat, oni fyddwch yn dewis gwneud hynny.
- cael **pleidlais unfryd i wneud penderfyniadau**, yn ddarostyngedig i'r erthyglau, os ydych yn gwmni preifat. Caiff aelodau gytuno i benderfyniadau mewn ysgrifen.
- cael **gorchymyn llys i wneud gostyngiadau cyfalaf** fel cwmni preifat – yn hytrach, gellir wneud datganiad solfedd i'w hategu.



27309/30